

**RE: Proposal to transfer GP services from Gresford Health Centre to Rossett Surgery and Llay Health Centre (Cymraeg yn dilyn)**

Since March 2020, Alyn Family Doctors has not operated out of Gresford Health Centre. The building housed Alyn Family Doctors, District Nurses, and Health Visitors (a specialist team who look after new mums and babies).

At first lockdown, a risk assessment found it would be unsafe for three, separate healthcare teams to use the site together. If one doctor, nurse, or health visitor were to contract Covid, all three separate teams would have to self-isolate. This would have been disastrous for the health needs of our community in the best of times, let alone in the midst of a global pandemic. As Alyn Family Doctors had the use of other buildings, we vacated Gresford allowing it to remain an essential hub for the District Nurses and Health Visitors. With just two teams, there is sufficient space for social distancing so one person contracting Covid would not affect the other team.

Despite the huge pressures on healthcare provision in the last 16 months, Alyn Family Doctors has kept face-to-face appointments and increased access via video consultations, text and 24hr-a-day eConsult, a web-based consultation service. We have also delivered over 15,000 Covid-19 vaccinations from our clinics at Llay Royal British Legion.

Demand for GPs has increased dramatically and we have responded. Working over two sites means we're more efficient and our staff works better together and is more resilient. We have increased the number of GP appointments by 135 per week. **That is now 935 GP appointments per week for our community and 700 nurse appointments.**

Through being more efficient, changing how we work, and not being stretched across three sites, we now offer 17% more GP appointments per week and 15% more nursing appointments per week that we did pre-pandemic. Rossett Surgery is now open full-time for telephone and face-to-face consultations giving patients in Gresford an accessible location, only 7 minutes away from Gresford High Street on public transport.

Alyn Family Doctors is continuing to invest in more staff, more appointments, and better service to you across both sites. You will continue to be able to be seen in either Llay or Rossett at your convenience and you will continue to be able to request a home visit in Gresford as you always have done previously. On top of all that, Gresford Pharmacy is able to take your repeat prescription requests, just as it has done over the past 16 months.

We propose to make this arrangement permanent. It means we can continue our increased appointment numbers, continue to be more efficient, and continue to improve our services to you. We are investing more to make sure that the benefits of new technology and new ways of working continue to widen access whilst making sure that no patient is left behind. For instance, patients who cannot use eConsult will be able to call us and our trained reception team will assist them by going through the form over the telephone.

We accept that for some patients, accessing services at Llay or Rossett is less convenient than Gresford. But we are rooted in this community. We are here to serve you, and in the best tradition of the NHS, to provide conscientious care from cradle to grave. This proposal is necessary because it allows us to provide a better service to you

**Alyn Family Doctors**

## **FREQUENTLY ASKED QUESTIONS**

We know from our extensive patient engagement work over the past two years the worries that patients expressed in the past. We've thought hard about these and how we can reduce these concerns as follows:

### **Will I still be a patient of yours?**

Yes, you will still be a patient of Alyn Family Doctors. There is no proposal to change the number of patients we look after or change our boundary.

### **How will I access appointments?**

Rossett Surgery and Llay Health Centre are now both open full-time. You can choose to speak to a doctor or nurse in either location. Our more efficient working arrangements mean that we can offer an extra 135 GP appointments a week by working only out of two sites.

We now find that many problems can be resolved over the telephone without ever needing to visit a surgery. That doesn't mean you won't be seen face-to-face if the GP needs to see you. We've continued to see patients throughout the pandemic. But it does mean that you can be saved a journey if your problem can be resolved quickly over the telephone. 45% of our Gresford patients have been seen face-to-face since April 2020.

You will be able to telephone for on-the-day urgent or emergency appointments. If your request is non-urgent, we will direct you to use our eConsult service which helps us to prioritise requests. If you do not have access to the internet, our staff will be able to assist you after 11am. We are recruiting additional staff now to improve this service. Not managing an third site means we can invest in staff to make sure all of our community can benefit from advances in technology.

### **Transport**

Rossett Surgery can be reached by bus in only 7 minutes from Gresford High Street without needing to change. The bus stops right at the end of Station Road, meaning the surgery is only 2 minutes' walk away.

If you're driving, (and from patient surveys we know that the majority of our patients drive or has a lift to appointments), there is on-street parking and a Council-operated car park with 32 spaces on Station Road in Rossett. Llay Health Centre has ample free parking. We've also arranged a discount with a local taxi company – Yellow Cars (01978 286286) – who will apply the discount for any travel to and from either Llay or Rossett.

### **Prescriptions**

You can drop your repeat prescription request off at Gresford Pharmacy and they bring it to us and collect the signed prescriptions at least twice per day. You now also have access to order your repeat prescriptions by email or online (please ask Reception for details of how to register).

### **Why have you chosen to close Gresford and not Rossett?**

Gresford Health Centre is the smallest of our three sites. Although the building is large, we share it with two other services. Rossett contains rooms for our support staff who deal with prescriptions and essential administration behind the scenes, as well as our dispensary.

During the past year, Llay and Rossett have been redecorated and refurbished with new flooring to make them more Covid-secure.

Gresford is the least-used of our health centres. We have looked at the data for the two years before we closed for the pandemic. In the year before March 2020, only 82 patients used Gresford exclusively more than once per year. This is a small proportion of our patients resident in Gresford.

### **Will I still be able to have a home visit?**

Yes. Housebound or very frail patients who live anywhere within our boundary and require a home visit are able to request one as they always have done.

### **What will happen to the District Nurses and the Health Visitors?**

These teams are unaffected and will continue to operate out of Gresford Health Centre.

### **What happens next?**

We want to hear your views on the proposal and how we can address any of your concerns. This will then form part of the presentation to Betsi Cadwaladr University Health Board's Primary Care Panel when we apply for ratification of our proposal. The consultation period will close at midnight on Monday 23<sup>rd</sup> August.

You can respond via:

Email [AlynFamilyDoctors.GresfordEngagement@wales.nhs.uk](mailto:AlynFamilyDoctors.GresfordEngagement@wales.nhs.uk)

Post Gresford Engagement, Llay Health Centre, School Road, Llay, Wrexham LL12 0TR

Alternatively, if you prefer to speak to an independent organisation, you can contact the North Wales Community Health Council in confidence as follows:

Email [yourvoice@wales.nhs.uk](mailto:yourvoice@wales.nhs.uk)

Post Mrs Carol Williams, North Wales Community Health Council, 11 Llys Castan, Ffordd Y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH

Telephone 01248 679284 (ext 3)

(A telephone service is in place. Messages are regularly checked by staff – we aim to return your call by the next working day).

## **PARTHED: Cynnig i drosglwyddo gwasanaethau meddygon teulu o Ganolfan Iechyd Gresffordd i Feddygfa'r Orsedd a Chanolfan Iechyd Llai**

Ers mis Mawrth 2020, nid yw Meddygon Teulu Alyn wedi bod yn gweithredu o Ganolfan Iechyd Gresffordd. Roedd yr adeilad yn gartref i Feddygon Teulu Alyn, Nyrsys Ardal ac Ymwelwyr Iechyd (tîm arbenigol sy'n gofalu am famau newydd a babanod).

Adeg y cyfnod clo cyntaf, canfu asesiad risg y byddai'n anniogel i dri thîm gofal iechyd ar wahân ddefnyddio'r safle gyda'i gilydd. Pe bai un meddyg, nyrs neu ymwelydd iechyd yn dal Covid, byddai'n rhaid i bob un o'r tri thîm hunanynysu. Byddai hyn wedi bod yn drychinebus i anghenion iechyd ein cymuned unrhyw bryd, heb sôn am ynghanol pandemig byd-eang.

Gan fod Meddygon Teulu Alyn yn defnyddio adeiladau eraill, penderfynon ni adael Canolfan Iechyd Gresffordd, gan ganiatáu iddo barhau i fod yn ganolfan hanfodol ar gyfer y Nyrsys Ardal a'r Ymwelwyr Iechyd. Gyda dim ond dau dîm, mae digon o le i gadw pellter cymdeithasol, felly ni fyddai un person yn dal Covid yn effeithio ar y tîm arall.

Er gwaethaf y pwysau enfawr ar ddarpariaeth gofal iechyd yn ystod yr 16 mis diwethaf, mae Meddygon Teulu Alyn wedi cadw apwyntiadau wyneb yn wyneb a darparu mwy o fynediad drwy ymgynghoriadau fideo, testun a gwasanaeth ymgynghori ar y we eConsult, sydd ar gael 24 awr y dydd. Rydym hefyd wedi darparu dros 15,000 o frechiadau Covid-19 o'n clinigau yng nghanolfan Lleng Brydeinig Frenhinol Llai.

Mae'r galw am feddygon teulu wedi cynyddu'n ddramatig ac rydym wedi ymateb. Mae gweithio dros ddau safle yn golygu ein bod yn fwy effeithlon a bod ein staff yn gweithio'n well gyda'n gilydd ac yn fwy gwydn. Rydym yn cynnal 135 yn fwy o apwyntiadau meddyg teulu yr wythnos. Mae hynny bellach yn golygu 935 o apwyntiadau yr wythnos gyda meddygon a 700 gyda nyrsys i'n cymuned.

Drwy fod yn fwy effeithlon a newid y ffordd rydym yn gweithio ar draws dau safle, rydym bellach yn cynnig 17% yn fwy o apwyntiadau meddygon teulu yr wythnos a 15% yn fwy o apwyntiadau nyrsio yr wythnos nag yr oeddem yn eu cynnig cyn y pandemig. Mae Meddygfa'r Orsedd bellach ar agor yn llawn amser ar gyfer ymgynghoriadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, gan gynnig lleoliad hygyrch i gleifion yng Ngresffordd, dim ond 7 munud o deithio o Stryd Fawr Gresffordd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Meddygon Teulu Alyn yn parhau i fuddsoddi mewn mwy o staff, mwy o apwyntiadau a gwell gwasanaeth i chi ar draws y ddau safle. Byddwch yn dal i allu cael eich gweld naill ai yn Llai neu yn yr Orsedd pan fydd hynny'n gyfleus i chi a byddwch yn dal i allu gofyn am ymweliad cartref yng Ngresffordd fel rydych chi bob amser wedi'i wneud o'r blaen. Ar ben hynny i gyd, mae Fferyllfa Gresffordd yn gallu derbyn eich ceisiadau presgripsiynau rheolaidd, yn union fel y mae wedi gwneud dros yr 16 mis diwethaf.

Rydym yn cynnig gwneud y trefniant hwn yn un parhaol. Mae'n golygu y gallwn barhau i gynnig mwy o apwyntiadau, parhau i fod yn fwy effeithlon a pharhau i wella ein gwasanaethau i chi. Rydym yn buddsoddi mwy i sicrhau bod buddion technoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio yn parhau i ehangu mynediad wrth sicrhau nad oes unrhyw glaf yn cael ei adael ar ôl.

Er enghraifft, bydd cleifion na allant ddefnyddio eConsult yn gallu ein ffonio a bydd ein tîm derbynfa hyfforddedig yn eu cynorthwyo trwy fynd trwy'r ffurflen dros y ffôn.

Rydym yn derbyn bod symud gwasanaethau i Lai neu'r Orsedd yn llai cyfleus na Gresffordd i rai cleifion. Ond rydyn ni wedi gwreiddio yn y gymuned hon. Rydyn ni yma i ofalu amdanoch chi, ac yn nhraddodiad gorau'r GIG, i ddarparu gofal cydwybodol o'r crud i'r bedd. Mae'r cynnig hwn yn angenrheidiol oherwydd ei fod yn caniatáu inni ddarparu gwell gwasanaeth.

**Meddygon Teulu Alyn**

## **CWESTIYNAU CYFFREDIN**

Gwyddom o'n gwaith ymgysylltu helaeth â chleifion dros y ddwy flynedd ddiwethaf y pryderon a fynegwyd gan gleifion yn y gorffennol. Rydym wedi meddwl yn galed am y rhain a sut y gallwn leihau'r pryderon hyn fel a ganlyn:

### **A fydda i'n dal i fod yn glaf i chi?**

Byddwch, byddwch yn dal i fod yn glaf i Feddygon Teulu Alyn. Nid oes cynnig i newid nifer y cleifion rydym yn gofalu amdanynt na newid ein ffin.

### **Sut fydda i'n cael apwyntiadau?**

Mae Meddygfa'r Orsedd a Chanolfan Iechyd Llai bellach ar agor yn llawn amser. Gallwch ddewis gweld meddyg neu nyrs yn y naill leoliad neu'r llall. Mae ein trefniadau gweithio mwy effeithlon yn golygu y gallwn gynnig [135 yn fwy o apwyntiadau meddyg teulu](#) yr wythnos drwy weithio o ddau safle yn unig.

Rydym yn gweld nawr bod modd datrys llawer o broblemau dros y ffôn heb fod angen i chi ymweld â meddygfa. Nid yw hynny'n golygu na fyddwch chi'n cael eich gweld wyneb yn wyneb os oes angen i'r meddyg teulu eich gweld. Rydym wedi parhau i weld cleifion gydol y pandemig. Ond mae'n golygu y gellir arbed taith i chi os oes modd datrys eich problem yn gyflym dros y ffôn. Mae 45% o gleifion yng Ngresffordd wedi cael eu gweld wyneb yn wyneb ers mis Ebrill 2020.

Byddwch yn gallu ffonio am apwyntiadau brys neu argyfwng ar y dydd. Os nad yw'ch cais yn frys, byddwch yn eich cyfeirio i ddefnyddio ein gwasanaeth eConsult, sy'n ein helpu i flaenoriaethu ceisiadau. Os nos oes gennych fynediad arlein, bydd ein staff yn gallu'ch cynorthwyo ar ôl 11yb. Rydym yn recriwtio staff ychwanegol i wella'r gwasanaeth hwn. Mae peidio â rheoli tri safle yn golygu y gallwn fuddsoddi mewn staff i sicrhau y gall pob aelod o'n cymuned elwa ar ddatblygiadau mewn technoleg.

### **Cludiant**

Gellir cyrraedd Meddygfa'r Orsedd ar fws mewn 7 munud o Stryd Fawr Gresffordd heb fod angen newid. Mae'r bus yn stopio ar ddiwedd Heol yr Orsaf, sef tua 2 funud o'r feddygfa ar droed.

Os ydych chi'n gyrru (o arolygon cleifion, rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf o'n cleifion yn gyrru neu'n cael liffert i apwyntiadau), mae lle i barcio ar y stryd a maes parcio a weithredir gan y Cyngor gyda 32 o leoedd ar Heol yr Orsaf yn yr Orsedd. Mae gan Ganolfan Iechyd Llai ddigon o le i barcio am ddim.

Rydym hefyd wedi trefnu disgownt gyda chwmni tacsï lleol – Yellow Cars 01978 286286 – a fydd yn cymhwyso'r disgownt ar gyfer unrhyw siwrnai i Lai neu'r Orsedd ac oddi yno.

### **Presgripsiynau**

Gallwch fynd â'ch cais am bresgripsiwn rheolaidd i Fferyllfa Gresffordd; maent yn dod â cheisiadau atom ac yn casglu'r presgripsiynau wedi'u llofnodi o leiaf ddwywaith y dydd. Erbyn

hyn, gallwch archebu eich presgripsiynau rheolaidd drwy e-bost neu ar-lein hefyd (gofynnwch i'r person ar y Dderbynfa am fanylion sut i gofrestru).

### **Pam rydych chi wedi dewis cau safle Gresffordd ac nid yr Orsedd?**

Canolfan Iechyd Gresffordd yw'r lleiaf o'n tri safle. Er bod yr adeilad yn fawr, rydym yn ei rannu â dau wasanaeth arall. Mae'r Orsedd yn cynnwys ystafelloedd ar gyfer ein staff cymorth sy'n ymdrin â phresgripsiynau a gweinyddu yn y cefndir, yn ogystal â'n dosbarthfa. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llai a'r Orsedd wedi cael eu hailaddurno a'u hadnewyddu gyda lloriau newydd i'w gwneud yn fwy diogel o ran Covid.

Gresffordd yw'r ganolfan iechyd sy'n cael ei defnyddio leiaf. Rydym wedi edrych ar y data am y ddwy flynedd cyn i ni gau ar gyfer y pandemig. Yn y flwyddyn cyn mis Mawrth 2020, dim ond 82 o gleifion a ddefnyddiodd Gresffordd yn unig fwy na dwywaith y flwyddyn; defnyddiodd 698 o gleifion Gresffordd yn unig unwaith yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn gyfran fach o'n cleifion sy'n byw yng Ngresffordd.

### **A fydda i'n dal i allu cael ymweliad cartref?**

Byddwch. Gall cleifion sy'n gaeth i'r tŷ neu'n fregus iawn sy'n byw unrhyw le o fewn ein ffin ac sydd angen ymweliad cartref ofyn am un fel y maent wedi'i wneud erioed.

### **Beth fydd yn digwydd i'r Nyrsys Ardal a'r Ymwelwyr Iechyd?**

Ni fydd y timau hyn yn cael eu heffeithio a byddant yn parhau i weithredu o Ganolfan Iechyd Gresffordd.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Rydym am glywed eich barn ar y cynnig a sut y gallwn fynd i'r afael ag unrhyw un o'ch pryderon. Bydd hyn wedyn yn rhan o'r cyflwyniad i Banel Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr pan fyddwn yn gwneud cais am gadarnhad ar gyfer ein cynnig.

Gallwch ymateb drwy:

E-bost [AlynFamilyDoctors.GresfordEngagement@wales.nhs.uk](mailto:AlynFamilyDoctors.GresfordEngagement@wales.nhs.uk)

Post Ymgynghoriad Gresffordd, Canolfan Iechyd Llai, Heol yr Ysgol, Llai, Wrecsam LL12 0TR

Fel arall, os hoffech siarad â sefydliad annibynnol, gallwch gysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned, yn gyfrinachol, fel a ganlyn:

E-bost [yourvoice@wales.nhs.uk](mailto:yourvoice@wales.nhs.uk)

Post Mrs Carol Williams, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, 11 Llys Castan, Ffordd Y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH

Telephone: 01248 679284

(Gweithredir gwasanaeth ffôn. Gwirir negeseuon yn rheolaidd. Anelwn at ddychwelyd eich galwad erbyn y diwrnod gwaith nesaf)